


# Adroddiad:
# Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion

## Adroddiad Blynyddol 2018-19

CARDIFF
CAERDYDD

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

**CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION**

# AELODAETH Y PWYLLGOR



Y Cynghorydd Ali Ahmed

(Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mary McGarry

Y Cynghorydd Bablin Molik

Y Cynghorydd Susan Goddard



Y Cynghorydd Kathryn Kelloway[1]



Y Cynghorydd Joe Carter

[1]Roedd y Cynghorydd Kelloway yn Aelod o'r Pwyllgor tan fis Mawrth 2019.













Y Cynghorydd Shaun Jenkins

Y Cynghorydd Saeed Ebrahim

Y Cynghorydd Sue Lent

## CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION

Craffu, mesur a mynd ati i hyrwyddo gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes gwasanaethau cymunedol ac oedolion, gan gynnwys:

- Tai Cyhoeddus a Phreifat
- Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl
- Diogelwch Cymunedol
- Adnewyddu Cymdogaethau a Chymunedau'n Gyntaf
- Cyngor a Budd-daliadau
- Amddiffyn Defnyddwyr
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Gofal Cymunedol
- Iechyd Meddwl a Namau Corfforol
- Strategaeth Gomisiynu
- Partneriaeth Iechyd

Asesu effaith partneriaethau gydag adnoddau a gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau lleol ar y cyd, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd i gyfarfod Cabinet neu Gyngor priodol ar ei ganfyddiadau ac i wneud argymhellion ar fesurau y bydd o bosibl yn gwella perfformiad a darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor yn y maes hwn.

I fod yn Bwyllgor Trosedd a Anhrefn y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac unrhyw ailddeddfu neu addasu ohoni; ac fel cynrychiolydd llawn o'r Cyngor er mwyn arfer yr holl bwerau a swyddogaethau a ganiateir o dan y Ddeddf honno.

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Croeso i Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion 2018-19 Bu’n flwyddyn ddiddorol a llawn iawn i ni. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau, yn nhermau adnoddau ac amser, bu cryn dipyn o eitemau nad oeddem yn gallu edrych arnynt. Rhestrir y rhain ar ddiwedd yr Adroddiad. Wedi dweud hynny, rwy’n credu i ni lwyddo i flaenoriaethu’r holl eitemau pwysicaf. Drwy gydol yr Adroddiad gwelwch chi awgrymiadau ar gyfer rhagor o graffu a monitro Eto, caiff y rhain eu rhestru ar ddiwedd yr Adroddiad.

Byddwch yn gweld o’r Adroddiad fod ein gwaith eleni wedi ymwneud ag ystod eang o bynciau. Rydym wedi craffu ar ddatblygu gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol i oedolion, yn benodol ynghylch y meysydd Darpariaeth Gofal Cartref, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac Oedolion sydd ag Anabledd Dysgu. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff y strategaethau hyn eu gweithredu ac y caiff ymrwymiadau ynddynt eu cyflawni. Hefyd edrychom ar Gynllun Ailsefydlu Personau sy’n Agored i Niwed a’r bwriad i barhau i gymryd rhan wrth ailsefydlu ffoaduriaid sy’n agored i niwed tan fis Mawrth 2020, yn rhanbarthol gyda Bro Morgannwg, yn unol â chynllun y Swyddfa Gartref.

Rwy’n arbennig o falch o’r gwaith rydym wedi’i wneud parthed Digartrefedd: Cynhaliom un Cyfarfod Craffu, yn ymwneud yn llwyr â’r mater hwn, ar 21 Ionawr 2019, pan adolygom y trefniadau ar gyfer y gaeaf ar gyfer pobl ddigartref a phobl sy’n cysgu ar y stryd unigol er mwyn penderfynu a oeddent yn addas at y diben. Clywsom dystiolaeth gan nifer o dystion allanol o ystod o ddarparwyr gwasanaeth, o’n tîm Allgymorth ein hunain a’r Aelod Cabinet a swyddogion. Roedd hwn yn gyfarfod hynod ddefnyddiol ac addysgiadol a galluogodd ni i wneud arsylwadau ac argymhellion i’r Cabinet. Eto, rydym wedi ymrwymo i graffu’n barhaus ar yr eitem hon.

Mae’r Pwyllgor hefyd wedi ystyried Strategaeth Adeiladu Tai y Cyngor ac ymrwymiad y Cyngor i adeiladu 1,000 o gartrefi newydd erbyn mis Mai 2022 a 2,000 o gartrefi newydd yn y tymor hwy.

Fel y pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn ar gyfer y Cyngor, adolygom Bolisi Diogelu y Cyngor a derbyn Adroddiad Cynnydd.

Gyrrir ein holl waith gan ein hymrwymiad i sicrhau llywodraethu cadarn ar gyfer y Cyngor, y caiff dinasyddion leisio eu barn, bod newidiadau i wasanaethau yn arwain at welliannau cadarnhaol a bod y bobl hynny sy'n gyfrifol am adnoddau'r Cyngor yn cael eu dwyn i gyfrif i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda.

Ni allai dim o'r gwaith rydym wedi'i wneud fod wedi cael ei wneud heb gefnogaeth a gwaith caled staff yn y Gwasanaethau Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor ac ni allaf ddiolch digon iddynt am eu hymroddiad a'u cefnogaeth a fu'n amhrisiadwy i mi.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bob Aelod o'r Pwyllgor, am eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn ystod y flwyddyn a hoffwn estyn diolch i Aelodau'r Cabinet, y Swyddogion a'r tystion allanol a anerchodd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.



**Y Cynghorydd Mary McGarry**
**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Cymunedol ac Oedolion**

# TROSOLWG

Mae gan Bwyllgor Craffu ar y Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion rôl bwysig o ran asesu perfformiad y gwasanaeth a rhoi gwybodaeth am ddatblygu gwasanaethau a pholisïau mewn ystod o wasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys pob agwedd ar dai, adnewyddu cymdogaethau a gofal cymdeithasol i oedolion. Y Pwyllgor hefyd yw pwyllgor craffu'r Cyngor ar drosedd ac anhrefn.

Un o brif nodau'r Pwyllgor yw edrych ar bethau o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion a defnyddio hyn er mwyn gwneud sylwadau ac argymhellion i'r Cabinet ar sail gwybodaeth. Rydym wedi gwahodd gofalwyr, eiriolwyr, dinasyddion, partneriaid a'r trydydd sector i gyfrannu at ein gwaith, yn ogystal â gwrando ar Aelodau a swyddogion y Cyngor a sefydliadau statudol ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mai 2019, craffodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- **Cyn penderfynu** – Pan fo’r Pwyllgor wedi gwerthuso a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn y Cabinet, sy’n rhoi cyfle i’r Cabinet wybod barn Aelodau’r Pwyllgor Craffu cyn penderfynu:
- Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig Caerdydd a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2018-2023
- Gofal Cartref yng Nghaerdydd
- Strategaeth Adolygu Tai a Digartrefedd 2018-22
- Diogelu – Adroddiad ar Gynnydd ac Adolygiad o Bolisi
- Y Cynllun Corfforaethol
- Cynigion Cyllidebol
- Strategaeth Lety i Bobl Hŷn
- Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2019/20
- Strategaeth Adeiladu Tai'r Cyngor
- Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed
- Strategaeth Comisiynu ar y Cyd i Oedolion ag Anabledd Dysgu
- **Datblygu a/neu Adolygu Polisi** – Pan fo’r Pwyllgor wedi cyfrannu at brosesau datblygu polisi’r Cyngor, er enghraifft trwy ystyried dogfennau polisi drafft a/neu pan fo’r Pwyllgor wedi ystyried gweithredu polisïau, gan feddwl a yw hyn wedi digwydd yn brydlon a beth fydd effaith y polisi, gan roi cyfle i’r Cabinet wybod barn Aelodau’r Pwyllgor Craffu ar ba un ai oes angen gwneud newidiadau ai peidio:
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygu ar Safon Ansawdd Tai Cymru gan gynnwys safbwyntiau Tenantiaid
- Llety dros dro ac â Chymorth - Porth Pobl Sengl
- Atal Ymglymiad Pobl Ifanc mewn Delio Cyffuriau (Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen - ar y cyd â’r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc).

- **Monitro Cynnydd** – Pan fo’r Pwyllgor wedi monitro cynnydd y Cyngor wrth roi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ynghynt ar waith:
- Deddf Asesu ac Ymgysylltu â  Gofal Cymdeithasol Cymru (2016)
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol
- Amddiffyn Oedolion

- **Monitro Perfformiad** – Pan fo'r Pwyllgor wedi ymgymryd â monitro perfformiad y Cyngor:
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19 (ar y cyd â Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc)
- Adroddiadau Perfformiad Chwarterol – Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, a Chymunedau a Thai

- **Papurau Briffio**
- Pecyn Cymorth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Gynghorwyr ar Dai Hygyrch
- Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion Rhent

Dros y flwyddyn, bu i'r Pwyllgor Craffu gynnal 11 cyfarfod pwyllgor ac ysgrifennu 26 llythyr i'r Cabinet, at swyddogion a phartneriaid allanol yn rhannu ei sylwadau, argymhellion a phryderon yn dilyn craffu ar eitemau mewn cyfarfodydd pwyllgor. Ffurfiodd yr Aelodau Banel Perfformiad, sydd wedi cynnal 2 gyfarfod ar wahân y flwyddyn ddinesig hon, gyda Pherfformiad Chwarter 3 wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor llawn ar 3 Ebrill 2019, gyda Chwarter 4 wedi'i amserlennu ar gyfer mis Gorffennaf 2019.

**Datblygu Aelodau'r Pwyllgor**

Mae Craffu yn wasanaeth a arweinir gan Aelodau y mae ei lwyddiant yn gysylltiedig yn agos â gallu a datblygiad Aelodau'r Pwyllgorau Craffu. Mae'r Tîm Craffu yn gweithio'n agos â chydweithwyr trwy'r Cyngor er mwyn rhoi ystod parhaus o gyfleoedd i Aelodau i adeiladu ar neu loywi eu sgiliau Craffu a gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod o faterion perthnasol i'w rôl craffu.

Mae'r Aelodau hefyd yn mynychu cyfarfodydd cyn y Pwyllgor er mwyn trafod, dadansoddi a deall y materion sy'n cael eu hystyried a phan fo angen, gofyn am ragor o eglurhad ar gyfer yr wybodaeth a roddir.  O hyn, gall yr Aelodau hefyd bennu nifer o drywyddau ymholi ar gyfer y cyfarfod.

## DATBLYGU POLISI A CHRAFFU CYN PENDERFYNU

Mae'r Aelodau wedi gwneud cryn dipyn o graffu cyn penderfynu a gwaith datblygu polisi ynghlwm â materion Gofal Cymdeithasol a Thai yn ogystal â Diogelwch Cymunedol a chraffu ar Drosedd ac Anhrefn. Mae manylion rhai o'r rhain ar gael isod ac yn yr adran nesaf; mae rhestr gyflawn o bynciau yr ymdriniwyd â nhw, ar dudalen 7.

Wrth ystyried cyn y penderfyniad, cynghorir yr Aelodau i:

i) edrych ar y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad i'r Cabinet er mwyn gweld a yw hyn yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad deallus;

ii) gwirio adran goblygiadau ariannol adroddiad y Cabinet er mwyn bod yn ymwybodol o'r cyngor a roddwyd;

iii) gwirio adran goblygiadau cyfreithiol yr adroddiad Cabinet er mwyn bod yn ymwybodol o'r cyngor a roddwyd;

iv) gwirio'r argymhellion i'r Cabinet er mwyn gweld a yw'r rhain yn briodol.

## Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2019/20

Ar 3 Mawrth 2019, ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 cyn ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2019.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys:

- Cynnal a Chadw Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)
- Rhaglen Tai Newydd eu Hadeiladu, gan gynnwys y Bartneriaeth Cartrefi Caerdydd
- Cynnal a Chadw Eiddo
- Rheoli Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Ailfodelu ac Ailwampio cartrefi presennol
- Adfywio Ystadau
- Adfywio Cymdogaethau a Gwelliannau'r Ardal
- Hybiau Cymunedol
- Tîm Cyngor Ariannol, gan gynnwys effaith Credyd Cynhwysol
- Cymorth i denantiaid, gan gynnwys rheoli tenantiaethau, cyfranogi, ymgynghori a chefnogi tenantiaid sy'n agored i niwed
- Digartrefedd ac Angen am Dai
- Byw'n Annibynnol
- Gwariant Gwaith
- Iechyd a Diogelwch

Yn dilyn ystyriaeth, cymeradwyodd yr Aelodau y Cynllun Busnes; fodd bynnag, gwnaethant ofyn i'r adborth canlynol gael ei ystyried gan y Cabinet:

Yn gyffredinol croesawodd y Pwyllgor yr enghreifftiau o dai arloesol a gafodd eu datblygu mewn partneriaeth gyda Cadwyn a daethant i'r casgliad y dylai'r trefniant partneriaeth hwn gael ei wella er mwyn sicrhau bod cyfleoedd tai arloesol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Hefyd, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r camau gweithredol a oedd yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r problemau gyda lleithder yn y blociau o fflatiau lle roedd y cladin wedi'i dynnu i ffwrdd. Pan oedd yr adroddiad ar y cynnwys lleithedd ar gael; gofynnodd yr Aelodau am friff a nododd hefyd sut y gellid gwella'r sefyllfa ar gyfer preswylwyr.

Gofynnodd y Pwyllgor i nifer o fethiannau gwirioneddol sy'n perthyn i'r SATC gael eu hegluro, a gofynnodd am fanylion ynghylch pa lefelau y bydd y methiannau hyn yn effeithio ar gyflawni'r SATC. Hefyd, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth ynghylch cymhwysedd am y grant Gwelliannau Mawr gan Lywodraeth Cymru.

Tawelwyd meddyliau'r Pwyllgor gyda'r cynlluniau i leihau'r gwaith gwella a thorri yn ôl ar y gyllideb staff er mwyn diogelu benthyca.

Cydnabu'r Pwyllgor bryderon parthed yr anawsterau gyda'r broses gaffael a byddai'n ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad er mwyn penderfynu a oedd ffordd ymlaen briodol o adolygu'r broses gaffael.

Mewn ymateb i lythyr y Pwyllgor mynegodd y Cynghorydd Lynda Thorne a'r Cynghorydd Susan Elsmore eu diolchgarwch am gymorth cyffredinol y Pwyllgor. Yn nhermau lefel SATC y methiannau derbyniol, cadarnhaodd y llythyr '*ystyrir methiannau derbyniol fel llwyddiannau technegol yn marn Llywodraeth Cymru ac felly nid ydynt yn cael effaith ar gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru neu gymhwysedd ar gyfer grant Llywodraeth Cymru.'*

## Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Ar 6 Mehefin 2018, ystyriodd y Pwyllgor Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023 (VAWDASV), cyn ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin 2018. Gosododd Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ofyniad i awdurdodau lleol a byrddau iechyd baratoi strategaethau rhanbarthol i fynd i'r afael â'r

mater hwn ar y cyd. Mae strategaeth VAWDASV yn cydnabod y gall unrhyw un (menywod, dynion, plant a phobl ifanc) brofi a chael eu heffeithio gan VAWDASV. Mae'n mynd i'r afael â'r trais a'r gamdriniaeth a gyfeirir at fenywod, dynion, merched a bechgyn a thrais a cham-drin a wneir gan ddynion a menywod

Yn gyffredinol, cefnogodd y Pwyllgor y cynigion a chyflwynodd yr adroddiad i'r Cabinet. Hefyd, llongyfarchodd yr Aelodau yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar lunio Strategaeth gynhwysfawr sy'n mynd i'r afael â chymhlethdodau'r mater hwn mewn fformat clir sy'n hawdd ei ddarllen.

Roedd yr Aelodau'n bryderus, ar yr adeg pan ddaeth y Strategaeth i'r Pwyllgor, na chafodd cyllid ymhlith partneriaid, parthed cyflawni'r Strategaeth a'i weithredu, ei gytuno ac argymhellodd y dylid mynd i'r afael â hyn fel mater o frys. Hefyd argymhellodd yr Aelodau y dylai'r Cynllun Gweithredu sy'n mynd gyda'r Strategaeth fod ar gael a'i gyhoeddi ar yr un pryd a'r Strategaeth. Yn y cyfarfod, argymhellodd yr Aelodau hefyd yr angen i sicrhau y dylid cynnwys hyrwyddo trwy drafnidiaeth gyhoeddus a thacsis fel rhan o'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth.

*Nid oes angen Ymateb - gofynnodd yr Aelodau i ddiweddariad manwl ar y strategaeth gael ei ddarparu yn ystod 2019/20*

## Strategaeth Adolygu Digartrefedd a Thai 2018-2022

Dan Adran 50 Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'n rhaid i awdurdod tai lleol gynnal adolygiad digartrefedd o bryd i'w gilydd ar gyfer ei ardal, a fformiwleiddio a mabwysiadu strategaeth ddigartrefedd yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw. Ystyriodd yr Aelodau Strategaeth Adolygu Digartrefedd a Thai 2018-2022 ar 5 Rhagfyr 2018 cyn iddi gael ei hystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2018.

Ar ôl ystyried, mae Aelodau'r Strategaeth yn argymell y dylai:

- Symudiad tuag at wella'r ymagwedd cydweithiol rhwng bartneriaid fod yn flaenoriaeth.
- Cyfathrebu gwell ar ddarparu hostelau - gan sicrhau y trosglwyddir y neges bod hostelau'n saff ac yn ddiogel.

- Dylid cychwyn ar ddatblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu manwl, sy’n rhestru sut y caiff yr ymrwymiadau a’r camau gweithredu sydd yn y Strategaeth eu cyflawni, fel mater o flaenoriaeth.  Argymhellodd yr Aelodau’n gryf y dylid gweithredu hyn erbyn 31 Mawrth 2019.
- Yn nhermau’r cynnwys yn y Cynllun Gweithredu; argymhellodd yr Aelodau y dylid cynnwys y canlynol:
    - Gwybodaeth am y Trefniadau/Strwythurau Llywodraethu ar draws partneriaid.
    - Mesurau Perfformiad - sy’n cynnwys manylion o amserlenni a chyllidebau.

Yn y cyfarfod, cododd yr Aelodau bryderon ynghylch:

- Ymgysylltu â landlordiaid y sector rhent preifat a’r gallu i annog y landlordiaid hyn i osod eu heiddo i denantiaid sydd o bosibl yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol.  Gofynnodd yr Aelodau felly i wybodaeth am sut yr eir i’r afael â hyn gael ei darparu i’r Pwyllgor.

*Nid oes angen Ymateb - gofynnodd yr Aelodau i’r uchod gael ei fonitro drwy gydol 2019/20*

## Strategaeth Llety i Bobl Hŷn

Erbyn 2037 bydd nifer y bobl sy’n 65-84 oed yn cynyddu 42% a bydd y rhai sy’n 85 oed ac yn hyn bron yn dyblu. Rhagfynegir y bydd nifer y bobl yng Nghaerdydd â dementia yn cynyddu 67% ymhlith y rheiny 65+ oed ac 85% yn achos y rheiny 85+ oed rhwng 2015 a 2035. Yn ystod 2018 comisiynodd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg ymchwil annibynnol i nodi gofynion tai a gofal cysylltiedig pobl hŷn ar draws y rhanbarth yn y dyfodol ac i gyfeirio rhaglenni buddsoddi cyfalaf mewn tai yn y dyfodol. Adolygodd yr ymchwil ddarpariaeth bresennol tai i bobl hŷn, gan fodelu galw tebygol yn y dyfodol, yn seiliedig ar newid demograffig. Darparodd canfyddiadau’r ymchwil y gronfa dystiolaeth y datblygwyd Strategaeth Tai Pobl Hŷn Caerdydd ohoni.

Yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth cyn ei hystyried gan y Cabinet ar 21 Mawrth 2019. Yn gyffredinol croesawodd yr Aelodau y Strategaeth a’r canlyniadau a ddisgwyliwyd. Dywedodd yr Aelodau y byddai’r holl lety i bobl hŷn yn y

dyfodol yn cefnogi cymunedau amrywiol yn deg ac yn bodloni eu hanghenion o ran diwylliant, crefydd a gofal cymdeithasol. Yn nhermau cyllid, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor ac y bydd heriau ariannol y dyfodol o bosibl yn cael effaith ar ei allu i ddarparu llety newydd. Felly awgrymwyd y gallai defnydd o'r bartneriaeth gyhoeddus breifat, a gefnogodd gwerthu a rhentu eiddo, gael ei wella er mwyn galluogi'r Cyngor i werthu rhai o'r eiddo a adeiladodd. Byddai hyn, o bosibl, yn darparu ffynhonnell incwm er mwyn ei osod yn erbyn y gost ar gyfer adeiladu llety gan y cyngor. Fodd bynnag, roedd y pwyllgor yn ymwybodol bod i'r cynnig hwn rai risgiau cynhenid. Argymhelliad ychwanegol oedd sicrhau y cynhelir ymgynghoriad â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar newidiadau i'r polisi dyrannu. Hefyd awgrymwyd y dylid creu Cofrestr Cartrefi Hygyrch er mwyn sicrhau, pan fydd cartrefi wedi'u haddasu ar gael, gallent gael eu haseinio'n haws i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Yn dilyn y cyfarfod, anfonwyd llythyr at yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth yn gofyn i ystyriaeth gael ei rhoi i ddefnyddio unrhyw gyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb ddiweddar i gefnogi llwybrau bysus ac, yn benodol, y cysylltiadau trafnidiaeth lleol a oedd yn hanfodol i fynediad pobl hŷn i mewn i'r gymuned.

*Nid oes angen ymateb*

## Strategaeth Comisiynu ar y Cyd i Oedolion ag Anabledd Dysgu 2019-2024

Ar 21 Medi 2017, cytunodd y Grŵp Partneriaeth Anabledd Dysgu, sy'n adrodd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, y byddai Strategaeth Cyd-gomisiynu ar gyfer Oedolion sydd ag Anabledd Dysgu yn cael ei ddatblygu ar draws Cynghorau Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (CVUHB). Aethpwyd â'r Strategaeth Gyd-gomisiynu i'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Chwefror 2019, yn unol ag amcanion yr ymchwiliad, ac wedyn eto i'r Pwyllgor Llawn yn ei gyfarfod ar 1 Mai 2019. Yn y cyfarfod, roedd cynrychiolwyr o Ffederasiwn Caerdydd a'r Fro a Phobl yn Gyntaf Caerdydd hefyd yn bresennol a rhoesant eu persbectif ar y Strategaeth i'r Pwyllgor.

Yn gyffredinol, cymeradwyodd yr Aelodau yr adroddiad gan amlygu bod y cyd-gynhyrchu a'r gweithio mewn partneriaeth a wnaed o fewn y gwaith hwn yn ymagwedd newydd sydd wedi arwain at greu Strategaeth ystyrlon, wedi'i gosod allan yn dda. Nododd yr Aelodau

bwysigrwydd gweithredu a monitro, gan amlygu ei fod yn debygol y caiff llwyddiant ac effaith y Strategaeth eu pennu gan ei gweithredu.

Argymhellodd yr Aelodau y byddai dulliau gwahanol o gyflwyno'r wybodaeth i oedolion gydag anabledd dysgu, gyda mwy o ffocws o bosibl ar gyfathrebu ar lafar, yn ymagwedd werthfawr i oedolion sydd ag anabledd dysgu a'u system gymorth. Nododd yr Aelodau fod ethos dewis yn gyffredin o fewn y strategaeth, fodd bynnag, roeddent yn dymuno amlygu bod rhaid i ddewis, ymglymiad a chydweithio gyda'r unigol sydd ag anabledd dysgu, a'u system gymorth, gael eu chynnal drwy gydol yr holl ddarpariaethau gwasanaeth - gan ddymuno na châi symudiad tuag at leoliad ei weithredu fel llwybr gorfodol ar gyfer darparu gwasanaethau.

Cwestiynodd yr Aelodau, a gofyn am ragor o wybodaeth am y gwariant o 2% ar wasanaethau seibiant mewn perthynas â nod y strategaeth o ddarparu'r 'gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn'. Hefyd gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am yr adolygiad presennol sy'n cael ei gynnal ar wasanaethau seibiant, ynghyd â gwybodaeth fanwl a sut mae llawer o oedolion yn derbyn gofal seibiant ar hyn o bryd, a sut y caiff lefel y gwariant yn y maes hwn ei chynyddu yn unol â nod y Strategaeth.

Gyda'r ffocws penodol ar weithredu a monitro, nododd yr Aelodau fod y Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y Strategaeth heb eu datblygu eto a gofynasant i'r rhain ddychwelyd i'r Pwyllgor ar ôl eu datblygu.

*Yn aros am ymateb y Cabinet a chaiff Cynllun Gweithredu y Strategaeth ei ystyried yn ystod 2019/20*

## STRATEGAETH ADEILADU TAI'R CYNGOR

Ar 2 Ebrill 2019, derbyniodd y Pwyllgor friff ar y Strategaeth Adeiladu Tai Cyngor sydd i ddod. Aethpwyd â chynnig y Cabinet i'r Pwyllgor eto ar 1 Mai fel eitem cyn penderfynu, cyn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 16 Mai.

Yn gyffredinol roedd yr Aelodau'n frwdfrydig am y strategaeth a'i gweledigaeth, gan nodi, os câi ei gweithredu o fewn yr amserlen a gynlluniwyd, y dylai'r Strategaeth gael effaith

sylweddol ar breswylwyr Caerdydd. Gofynnodd yr Aelodau sut y câi ansawdd yr eiddo ei sicrhau. Ar ôl y drafodaeth hon, cafodd y Safon Dyluniad Caerdydd ei gynnwys yng Nghynnig y Cabinet. Fodd bynnag, dywedwyd wrth yr Aelodau bod angen diweddaru Safon Dyluniad Caerdydd. Gofynnwyd i'r eitem ddychwelyd i'r Pwyllgor ar ôl drafftio'r newidiadau yn llawn.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch y cyfyngiadau posibl y gallai cyllid eu cael ar gyflawni'r cynllun hwn gan gyfeirio'n benodol at y cap rhent arfaethedig gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn diweddariadau rheolaidd ar y cynnig. Hefyd cododd yr Aelodau bryderon ynghylch cynllunio gan gwestiynu amserlen bresennol y cyflwyniadau cynllunio. Wedyn, derbyniodd yr Aelodau y Cynnig Cabinet wedi'i ddiweddaru a oedd yn cynnwys Atodiadau diwygiedig gan gynnwys gwybodaeth am y trywydd cyflawni.

*Nid oes angen Ymateb - gofynnodd yr Aelodau i'r materion uchod gael eu hystyried yn ystod 2019/20*

# MONITRO CYNNYDD

Yn ystod 2018/19, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar ddau fater yr oedd wedi craffu arnynt o'r blaen ac roedd wedi codi nifer o bryderon ac argymhellion.

## Fframwaith Cynnal a Chadw Adeiladu - Materion Rheoli Eiddo Gwag

Yn 2015/16, ymgymerodd Panel Perfformiad Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion "blymiad dwfn" i mewn i reoli tai cyngor gwag, yn dilyn perfformiad gwael dros nifer o flynyddoedd o ran yr amser cyfartalog a gymerir i ailosod tai cyngor gwag.

Cyfarfu'r Panel Perfformiad bedair gwaith i ymgymryd â'r plymiad dwfn, gan archwilio'r canlynol;

- gwybodaeth sydd ar gael am ddangosyddion perfformiad eiddo gwag;
- gwybodaeth meincnodi;
- gwersi allweddol o graffu a arweinir gan denantiaid yn Lloegr;

- gweithdrefnau a phrosesau perthnasol Cyngor Caerdydd; ac ymweld â nifer o eiddo gwag i weld cyflwr yr eiddo a gaiff ei roi yn ôl i'r Cyngor a'r safon a gyrhaeddir cyn i eiddo gael ei ailosod

Lluniodd y Panel Perfformiad adroddiad, yn codi o'r plymiad dwfn, a oedd yn cynnwys un ar bymtheg o argymhellion, a chawsant i gyd eu derbyn. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am ragor o ddiweddariadau ar weithredu'r gwelliannau. Roedd yr Aelodau'n awyddus i ddeall effaith yr argymhellion oedd yn cael eu gweithredu a derbyniasant nifer o ddiweddariadau, yr oedd yr un olaf ym mis Rhagfyr 2017. Ar yr adeg hon, cafodd yr Aelodau wybod am y trefniadau newydd oedd yn cael eu gweithredu o fis Ionawr 2018.
Ar y cam hwnnw, dywedodd yr Aelodau eu bod yn cefnogi'r trefniadau cytundebol newydd ar gyfer y dyfodol, ond gwnaethant gadarnhau y byddent yn dymuno parhau i fonitro perfformiad.

Wrth ddatblygu rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2018/19, gofynnodd yr Aelodau am Friff ar Dai Gwag, a ddarparwyd ac a drafodwyd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ar 10 Hydref 2018.

Roedd y briff a ddarparwyd yn rhestru'r materion canlynol:

- Ôl-groniad o dai gwag a adawyd gan y contractwr blaenorol;
- Anawsterau a gafwyd gan gontractwyr newydd wrth wneud gwaith ar dai gwag o fewn amserlenni penodol;
- R&M Williams Contractor (Gorllewin Caerdydd) yn tynnu'n ôl
- Trefniadau wrth Gefn yng ngoleuni'r uchod;
- Y Camau Nesaf
- Perfformiad Tai Gwag hyd at fis Gorffennaf 2018

Yn gyffredinol, daeth yr Aelodau i'r casgliad, yng ngoleuni problemau a heriau parhaus ar draws y gwasanaeth (a fu'n bryder hirdymor gan y Pwyllgor), y byddent yn cefnogi datblygu model mewnol, yn bosibl wedi'u seilio ar drefniadau yn Abertawe. Cytunodd yr Aelodau y byddent yn dymuno ymgymryd ag ymweliad ag Abertawe i edrych ar y trefniadau a fydd yn cael eu cynnwys yn rhaglen waith 2019/20.

Mewn perthynas â threfniadau contractau presennol ac yn y dyfodol, roedd y Aelodau'n pryderu nad oedd y broses graffu a'r contractau a ddaeth o ganlyniad yn ddigon cadarn. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys:

- Maint y gwaith sydd erbyn hyn wedi'i ôl-gronni a'r costau i'r Cyngor a ddaeth o ganlyniad - gofynnodd yr Aelodau, yn y cyfarfod, am ddadansoddiad o'r gost o ran colli rhent ayyb. ac y dylid ei gyflenwi ar frys.

- Pryderon na ragwelwyd bod y contractwr oedd ar fynd, sef Ian Williams, ddim yn gorffen gwaith ac nad ymdriniwyd ag ef yn gynt ac felly arweiniodd at ôl-groniad mawr o waith i'r contractwyr sy'n dod i mewn ymdrin ag ef.

- Pryderon nad oedd y broses gaffael wedi bod yn ddigon trylwyr wrth sgrinio cyflwyniadau contractwyr posibl, er mwyn profi eu hyfywedd ariannol i wneud y gwaith, yn enwedig parthed tai gwag, sy'n ymddangos yn broblem benodol ac yn risg barhaus.

- Roedd angen i delerau'r contract fod yn dynnach ac yn fwy gorfodadwy er mwyn sicrhau na allai contractwyr dynnu allan o gontractau ar fyr rybudd. Daethant i'r casgliad bod angen rhywfaint o gosb wrth wneud hynny er mwyn lleihau costau i'r cyngor yn nhermau colli rhent a chostau sy'n perthyn i roi trefniadau eraill ar waith.

- Bod y Cyngor y glir iawn am y lefelau o waith y bydd contractwyr yn gyfrifol drostynt, fel eu bod yn glir iawn am y lefel o waith y disgwylir ohonynt; ac y gallant gynllunio, ar gam cynharach a gyfer paratoi pan fydd y contract wedi'i roi.

- Y caiff y contractau ond eu hystyried a'u rhoi pan fyddant yn gallu profi eu BOD wedi paratoi i ymgymryd â gwaith - lle y bo'n bosibl mae cyflogeion a chadwyni cyflenwi eisoes ar waith.

- Y caiff cosbau eu gweithredu mor gynnar â phosibl, yn unol â'r trefniadau cytundebol - er y gwerthfawrogwyd bod cyfnod o baratoi at ymgymryd â'r gwaith yn cael ei ganiatau, teimlai'r Aelodau fod yn hanfodol dechrau gorfodi hyn.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau am dderbyn diweddariadau chwarterol ar gynnydd mewn perthynas â pherfformiad ynghyd â diweddariadau manwl ar faterion sy'n perthyn i reoli tai gwag.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y canlynol:

- Adrodd ar ganlyniadau Dangosyddion Perfformiad ar draws y Gwasanaeth  Diweddariadau ar:
  - Perfformiad presennol y contractwr
  - Colled rhent ar draws y chwarter
- Diweddariad ar gaffael y contractwr ychwanegol
- Diweddariadau ar ddatblygu tîm mewnol, a pherfformiad y tîm (pan fydd yn berthnasol)
- Unrhyw gynlluniau a mentrau pellach sy'n cael eu datblygu i wella'r gwasanaeth

Caiff y diweddariadau eu hychwanegu at raglen waith y Pwyllgor a'u rhannu fel sy'n briodol.

## Adolygiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol

Yng nghyfarfod Tachwedd 2017 y Pwyllgor Craffu hwn, derbyniodd yr Aelodau nodyn briffio a chyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Wedyn darparwyd diweddariad pellach yn y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018.

Croesawodd yr Aelodau y diweddariad ar y cynllun Peilot yn Ysbyty'r Barri a chlywed bod hyn wedi arwain at welliant sylweddol yn ansawdd y cyfleusterau sy'n cael eu cynnig. Hefyd cydnabu'r Aelodau fod y cynllun Peilot wedi llwyddo i gynnig gwasanaeth llawer mwy ymatebol ac wedi cyflwyno cyfleoedd i weithredu'r newidiadau diwylliannol sy'n ofynnol trwy ddeddfwriaeth a chael mwy o fewnbwn o'r trydydd sector.  Hefyd croesawodd yr Aelodau y ffrwd gwaith newydd sy'n dod i'r amlwg yn Nwyrain Caerdydd, yn darparu ymarferwyr iechyd meddwl mewn meddygfeydd teulu, a'r effaith gadarnhaol mae hyn yn ei chael yn y maes hwn.   Roedd yr Aelodau hefyd yn falch bod cyllid yn ymddangos yn sefydlog a bod hyn wedi arwain at y gallu i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy hyd yn hyn.

Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n bryderus, er eu bod wedi codi hwn yn eu llythyr ym mis Tachwedd 2017, nad oedd strategaeth a/neu gynllun gweithredu er mwyn dangos sut y caiff y rhaglen ei chyflawni, gan gynnwys cyflwyno ffrwd gwaith newydd, sylweddol yn raddol.  Hefyd roedd yr Aelodau yn bryderus am y diffyg cynnydd amlwg wrth weithredu'r rhaglen yng Nghaerdydd.   Er bod yr Aelodau'n cydnabod y byddai rhaglen bwysig yn

cymryd amser, dywedodd yr Aelodau eu bod yn teimlo bod “symudiad araf” wrth weithredu’r rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys adnabod a datblygu adeilad addas yng Nghaerdydd a diffyg manylion o sut/pryd y byddai hyn yn digwydd (cerrig milltir, amserlenni ayyb), sut y caiff ei ariannu, a phwy yr effeithid arnynt.

Nid oedd yr aelodau’n teimlo bod ganddynt ddigon o fanylion i ymgymryd â chraffu effeithiol ac o ganlyniad, gofynasant, pan fyddai Strategaeth a/neu Gynllun Gweithredu yn cael ei weithredu (fel mater o frys) mae hyn yn cael ei adrodd yn ôl i’r Pwyllgor i roi gwybod i’r Aelodau o’i gynnydd.

## CRAFFU DIOGELWCH CYMUNEDOL A THROSEDD AC ANHREFN

Yn ystod 2018-19, mae Aelodau wedi gwneud y gwaith canlynol i gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer craffu ar waith y Bartneriaeth Trosedd ac Anhrefn a diogelwch cymunedol yng Nghaerdydd

### Atal Pobl Ifanc rhag Ymwneud â Delio Cyffuriau - Grŵp Gorchwyl ar y cyd â’r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc

Mewn ymateb i lythyr (dyddiedig 27 Mehefin 2017) gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne, cafodd Grŵp Gorchwyl ar y cyd rhwng y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a’r CASSC ei fformiwleiddio. Galwodd cwmpas yr ymchwiliad am archwilio’r sefyllfa yn ardaloedd Butetown a Grangetown yn benodol yn fanwl. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 17 Hydref, 2017, wedi’i gadeirio gan y Cyng. Saeed Ebrahim.

Adolygodd y Grŵp Gorchwyl y dystiolaeth a gasglwyd o drafodaethau gydag ystod eang o dystion gan gynnwys Aelodau’r Cyngor a swyddogion (gan gynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid); sefydliadau’r trydydd sector; Aelodau’r Bwrdd Diogelwch Cymunedol; ysgolion; ysgolion; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro; preswylwyr a chynrychiolwyr cymunedol; a’r Gwasanaeth Prawf. Hefyd adolygodd yr Aelodau nifer o gyhoeddiadau ac adroddiadau, a datblygodd, dosbarthodd a dadansoddodd arolwg cymunedol er mwyn

cael cipolwg ar y farn ar draws Caerdydd. Yn codi o hyn, nodwyd nifer o ddarganfyddiadau allweddol a chytunwyd ar nifer o argymhellion ohonynt,

Ardystiwyd argymhellion y Grŵp Gorchwyl gan y ddau bwyllgor Craffu a'u rhoi i'r Cabinet i'w gweithredu, mewn ymgynghoriad â'r bwrdd diogelwch cymunedol ac â sefydliadau o fewn y trefniadau partneriaeth ehangach yng Nghaerdydd.  Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu rhannu ag asiantaethau partner i'w hystyried a chawsant eu trafod yn y bwrdd cyflawni diogelwch cymunedol.

Cytunodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2019, o'r 19 argymhelliad, cafodd 12 eu derbyn, cafodd 6 eu derbyn mewn egwyddor ac 1 i ddilyn (Argymhelliad 17) Mae manylion pob argymhelliad yn yr Atodiad ir Adroddiad Cabinet, gydag esboniad am pam caiff yr argymhelliad naill ai ei dderyn, ei wrthod neu ei dderbyn mewn egwyddor neu'n rhannol.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ymateb y Cyngor i gyfarfod nesaf y cyd-Bwyllgor gyda Phlant a Phobl Ifanc.

## CYNLLUN CORFFORAETHOL A CHYLLIDEB

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn galluogi pwyllgorau craffu i ystyried cynigion cyllidebol drafft y Cabinet cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet a'r cyngor llawn. Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Corfforaethol drafft y Cyngor a'r cynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2019-20, gan gynnwys cynigion arbed manwl a'r Rhaglen Gyfalaf yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2018.   Adolygodd y Cynllun Corfforaethol drafft a'r cynigion arbedion cyllidebol.

Nododd y Pwyllgor nifer o faterion ynghylch adroddiadau'r Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Gorfforaethol a Chyllideb y Gyfarwyddiaeth. Cafodd y pryderon hyn eu cynnwys mewn llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu ar Berfformiad i'w ystyried wrth iddo adolygu'r Cynllun Corfforaethol cyffredinol, yr Ymgynghoriad a'r cynigion Cyllideb ar 20
Chwefror 2019 ac i'r Cabinet i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror 2019.

Ystyriodd y Cabinet a'r Cyngor Llawn lythyr y Pwyllgor yn ystod eu trafodaethau ar y cynigion.

# MONITRO PERFFORMIAD

Mewn ymateb i Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2014, mae'r Pwyllgor wedi sefydlu Panel Monitro Perfformiad i graffu ar adroddiadau perfformiad chwarterol a dadansoddi'n ddwys fel bo angen, y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref 2017, cytunodd dau Aelod i gymryd cyfrifoldeb am gynnal cyfarfodydd chwarterol, a phe bai unrhyw bryderon yn codi byddent yn cysylltu â'r Aelodau Cabinet/Swyddogion priodol i roi ymatebion naill ai i'r Panel Perfformiad neu i'r Pwyllgor llawn.

Aethpwyd â Pherfformiad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phobl a Chymunedau Chwarter 3 at y Pwyllgor Llawn ar 3 Ebrill 2019. Yn y cyfarfod, cododd yr Aelodau bryderon mewn perthynas â:

Phobl a Chymunedau

- Diffyg manylion parthed cynlluniau gweithredu
- Rhagor o wybodaeth ar Gynlluniau Gweithredu Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2019-2023
- Argaeledd a rheoli adnoddau parthed y cynllun Peilot 'Tai yn Gyntaf'
- Ffigwr Diwrnodau i Ailosod ar gyfer eiddo gwag (sef, ar adeg y cyfarfod, 89 diwrnod calendr)

O ganlyniad gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am Gynlluniau Gweithredu Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2019-2023 ynghyd â diweddariad ar sut y eir i'r afael â rheoli a throsiant eiddo gwag. Caiff y ceisiadau hyn eu cynnwys yn Rhaglen Waith 2019/20.

Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

- Lefel y cysylltiad gyda sefydliadau gwirfoddol yn nhermau comisiynu a darparu gwasanaethau
- Lefel y cartrefi gofal a darparu gofal cartref sydd ar hyn o bryd yn bryderon a uwchgyfeiriwyd.

Amserlennir Perfformiad Chwarter 4 ar gyfer y Pwyllgor llawn ar 5 Mehefin 2019.

## CYNLLUN GWAITH AR GYFER 2019- 20

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i ystyried eitemau ar gyfer eu cynnwys o bosibl yn rhaglen waith y Pwyllgor yn ystod 2019-20. Mae gwaith ar hyn o bryd yn mynd rhagddo i gywain materion ynghyd i'r Pwyllgor eu hystyried. Yna datblygir cynllun gwaith drafft a'i gyflwyno i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo a'i weithredu. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu awgrymiadau ar gyfer materion craffu gan Aelodau eraill.

## GWAITH CRAFFU YN Y DYFODOL

Yn ystod 2018/19, nodwyd nifer o faterion fel eitemau ar gyfer y Rhaglen Waith, ond nid oedd modd eu hystyried oherwydd pwysau amser.  At hynny, cododd nifer o faterion o drafodaethau'r Pwyllgor ar Eitemau.

Felly, gallai'r canlynol gael ei ystyried ar gyfer Rhaglen Waith 2019/20.

- Diogelwch mewn Parciau
- "Atal Trosedd trwy Ddylunio" mewn Cymunedau Newydd
- Gweithio yn y Lleoliad a Phartneriaethau Cymdogaeth
- Lles Staff Gofal Cymdeithasol
- Diweddariad Polisi Gorfodi Trwyddedu Sengl
- Adolygiad o Wiriadau Diogelwch mewn Blociau Fflatiau
- Cynllun Cyflenwi Lleol Cefnogi Pobl
- Rhaglen Hybiau Cymunedol a Lles
- Strategaeth Caerdydd a Bro Morgannwg Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023 *(Diweddariad)*
- Adroddiadau Perfformiad.
- Adroddiadau Archwilio, Ymchwilio a Rheolaethol perthnasol.
- Ymatebion y Cabinet i Ymholiadau blaenorol.
- Gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt wedi Ymholiadau blaenorol.
- Strategaeth Comisiynu ar y Cyd Oedolion ag Anabledd Dysgu 2019-2024 (*Adolygiad o Gynlluniau Gweithredu)*
- Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2019-2023 *(Diweddariad)*
- Safonau Dylunio Caerdydd
- Diweddariadau ar Gap Rhenti Llywodraeth Cymru
- Eiddo Gwag y Cyngor - Diweddariadau Chwarterol a Model Abertawe

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol -

  Adolygiad o’r Cynllun Gweithredu